# Datganiad dilynol: Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant (Cymru)

Yn 2022, mewn ymateb i nifer o farwolaethau trasig ymhlith plant yng Nghymru a Lloegr, cawsom wahoddiad gan Lywodraeth Cymru i arwain adolygiad cyflym amlasiantaethol o benderfyniadau yn ymwneud ag amddiffyn plant. Ein nod oedd pennu pa mor dda y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yn sicrhau bod enwau plant yn cael eu hychwanegu at y gofrestr amddiffyn plant, a'u tynnu oddi arni, dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r camau rydym wedi'u cymryd ers i ni gyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Medi 2023.

### Sut rydym wedi cydweithio

Ers mis Medi 2023, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ledled Cymru i droi ein hargymhellion yn newid go iawn. Gwnaethom ysgrifennu at bob un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ofyn sut y byddent yn gwneud cynnydd ac yn mesur effaith yr argymhellion.

Gwnaethom adolygu'r ymatebion gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a gwasanaethau addysg yn ofalus, a chynnal cyfarfodydd ar y cyd a thrafodaethau â phartneriaid i ddeall eu cynnydd.

Gwnaethom sefydlu proses adolygu tystiolaeth strwythuredig, yn cynnwys coladu, dadansoddi ac adolygu ymatebion gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a gwasanaethau addysg.

Gwnaethom gynnal cyfarfodydd ar y cyd a thrafodaethau bord gron â phartneriaid diogelu i gadarnhau'r cynnydd a mynd i'r afael â rhwystrau.

Ar y cyd ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), gwelsom ymrwymiad cadarn gan bartneriaid diogelu i roi argymhellion yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant ar waith. Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, rydym wedi cydweithio i gefnogi a monitro cynnydd, gan sicrhau y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith yn ymarferol ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod yr ymdrechion sylweddol a wnaed gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a gwasanaethau addysg. Mae'r cynlluniau gwella a gyflwynwyd gan bob rhanbarth yn dangos penderfyniad clir i gryfhau gwaith amlasiantaethol, gwella ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a gwella gwaith partneriaeth, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.

## Cynnydd a'r camau nesaf

Ers i adroddiad yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant gael ei gyhoeddi, rydym wedi gweithio gydag Estyn ac AGIC i fonitro ac adolygu'r gwelliannau. Bu cynnydd amlwg o ran cydweithio, safoni trothwyon ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Fodd bynnag, mae heriau yn bodoli o hyd o ran sicrhau cysondeb, prosesau rhannu data cadarn, a mynd i'r afael â phwysau'r gweithlu. Ym maes addysg, mae'r cynnydd mewn cyfranogiad ysgolion a gwell prosesau rhannu gwybodaeth, hyfforddiant a llwybrau uwchgyfeirio, yn dechrau sicrhau bod gwybodaeth am addysg yn cael ei hadlewyrchu'n well mewn ymarfer diogelu ledled Cymru.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi datblygu dangosfyrddau perfformiad a systemau olrhain cenedlaethol, ac mae mentrau hyfforddiant amlasiantaethol yn cael eu hailadrodd. Mae arweinwyr cenedlaethol yn gweithio i integreiddio gwasanaethau drws ffrynt a hyrwyddo cyd-leoli. Mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi cael eu hatgyfnerthu. Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn cynnal hunanasesiadau er mwyn helpu i gynnal ffocws a mesur cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

Ar y cyfan, mae Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at roi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar waith, gwella cydweithio amlasiantaethol a chryfhau trefniadau llywodraethu. Bydd cydlyniant cenedlaethol parhaus a chymorth wedi'i dargedu yn hanfodol er mwyn cynnal momentwm a chyflawni'r gwelliannau a ragwelwyd gan yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant.

Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant. Mae'r ymrwymiad, yr arbenigedd a'r ysbryd cydweithredol a ddangoswyd gan bartneriaid diogelu, byrddau rhanbarthol, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd ac addysg lleol wedi bod yn hanfodol i ysgogi cynnydd. Rydym yn gwerthfawrogi eich ymrwymiad i wella canlyniadau i blant ledled Cymru yn fawr, ac yn edrych ymlaen at barhau â'n gwaith gyda'i gilydd i sicrhau'r safonau uchaf o ddiogelwch a gofal.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddarllen yr adroddiadau a gyhoeddwyd, ewch i wefan Arolygiaeth Gofal Cymru

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant

Arolygiaeth Gofal Cymru